# Dysgwyr uchelgeisiol, galluog:

## Siarcod, morgathod a symiau i'w datrys

Darganfod pedwar syniad gwyllt i chi gynllunio Pasg tra gwahanol. Fe welwch gyfres o weithgareddau rhifedd; darllen a deall y gellir ei argraffu; a saith cam i fraslunio - digon i'ch disgyblion fwynhau wrth i'r gwanwyn agosáu!



Mae'r pecyn adnoddau yma wedi cael ei gynhyrchu gan athrawon, ar gyfer athrawon ar ran Ymddiriedolaeth Natur Gogledd Cymru – diolch i gefnogaeth chwaraewyr Loteri Cod Post y Bobl

Ymddiriedolaeth Natur Gogledd Cymru
North Wales Wildlife Trust

Supported by players of PEOPLE'S POSTCODE LOTTERY

Awarded funds from POSTCODE PLANET TRUST

## **Dysgwyr uchelgeisiol, galluog:** siarcod, morgathod a symiau i'w datrys

I ddefnyddio'r adnodd yma, bydd arnoch angen y canlynol:

- PDFs o 'Pyrsiau'r Fôr-forwyn' ac 'Ysgyfarnogod yr Entrychion' (dolenni o fewn y ddogfen)
- Y ddogfen yma – mae crynodeb byr isod, gyda'r prif adnoddau a dolenni ar y tudalennau canlynol.

Wrth i'r gaeaf lithro'n dawel i'r gwanwyn, dyma bedwar syniad gwyllt i chi gynllunio Pasg tra gwahanol:

**Cam 1: Helfa Wyau Pwrs y Fôr-forwyn**

Mae posib chwarae'r gweithgaredd rhifedd yma mewn dwy ffordd, gyda'r disgyblion yn cael eu cyfarwyddo i ystyried naill ai **perimetr** neu **arwynebedd** y petryalau (pyrsiau'r fôr-forwyn) cyn i'r gêm ddechrau. Er mwyn osgoi cymhlethu egwyddorion **perimetr** ac **arwynebedd**, mae dwy gyfres o gyfarwyddiadau, a gallwch argraffu'r gyfres sy'n bodloni nodau eich gwers chi yn y ffordd orau.

**Nod** y gêm yw casglu pyrsiau'r fôr-forwyn o'r 'traeth' a phlotio eu cyfesurynnau ar y grid cyfesurynnau, cyn mesur arwynebedd neu berimetr pob petryal. Bydd y disgyblion yn gweithio mewn parau, gan gymryd eu tro i blotio'r siapiau ac i wirio gwaith ei gilydd.

Enillydd y gêm fydd y disgybl sydd wedi 'casglu' yr arwynebedd neu'r perimetr mwyaf o byrsiau'r fôr-forwyn!

**Cam 2: Ymarfer rhifedd**

Ar ôl ymarfer eu perimetrau a'u harwynebedd yn Helfa Wyau Pwrs y Fôr-forwyn, beth am herio'r disgyblion i gwblhau cyfres ddata ac ateb rhai cwestiynau gwahaniaethol? Gallen nhw hyd yn oed ddefnyddio'r gyfres ddata i ddyfeisio eu cwestiynau eu hunain ar gyfer gweddill y dosbarth.

**Cam 3: Llythrennedd – deall Ysgyfarnogod yr Entrychion**

Darllen a deall y gellir ei argraffu ar gyfer darllen manwl ar yr erthygl 'Ysgyfarnogod yr Entrychion'. Defnyddiwch y cynllun marcio sydd ar gael, ac arddangos atebion yr athrawon er mwyn i'r disgyblion allu hunanasesu eu gwaith, neu farcio atebion partner dysgu.

**Cam 4: Cymesuredd mewn Celf**

Roedd gan yr oriel yn y rhifyn diwethaf elfen gyffredin! Defnyddiodd yr artistiaid ifanc y cymesuredd yn wynebau'r ysgyfarnog a'r dylluan frech, neu roedden nhw wedi cael eu hysbrydoli gan gymesuredd corff y fuwch goch gota, ac fe wnaeth un ffotograffydd gofnodi'r cymesuredd hudolus yn adenydd y gwalch-wyfyn.

Beth am argraffu'r detholiad o anifeiliaid cymesur a gadael i'ch disgyblion roi cynnig ar y **saith cam** yma i fraslunio? A chofiwch, os bydd eich disgyblion yn gwneud unrhyw beth maen nhw'n wirioneddol falch ohono, anfonwch lun at chris.baker@northwaleswildlifetrust.org.uk ac efallai y bydd yn ymddangos ar ein gwefan ni neu ar y cyfryngau cymdeithasol!

---

Mae'r pecyn adnoddau yma wedi cael ei gynhyrchu gan athrawon, ar gyfer athrawon ar ran Ymddiriedolaeth Natur Gogledd Cymru – diolch i gefnogaeth chwaraewyr Loteri Cod Post y Bobl

Ymddiriedolaeth Natur Gogledd Cymru
North Wales Wildlife Trust

Supported by players of People's Postcode Lottery

Awarded funds from Postcode Planet Trust

## Cam 1: Helfa Wyau Pwrs y Fôr-forwyn

Mesur **perimetr** petryalau

Amcanion: Cymerwch eich tro i blotio plisg wyau ar y grid. Byddwch yn sgorio pwyntiau yn ôl perimetr y plisg ŵy sydd wedi'i blotio'n gywir.

Adnoddau:

• Grid Helfa Wyau Pwrs y Fôr-forwyn – edrychwch dros y dudalen
• Cyfesurynnau plisg ŵy– edrychwch dros y dudalen
• Pensiliau / creonau / beiros lliw
• PDF o 'Pyrsiau'r Fôr-forwyn' (lawrlwythwch yma)

Cyfarwyddiadau:

1: Bydd un grid yn cael ei ddefnyddio rhwng pâr o chwaraewyr. Dylai pob chwaraewr ddewis lliw ac ysgrifennu ei enw yn y lliw hwnnw ar dop y grid. Torrwch y **Cyfesurynnau Plisg Ŵy** a'u gosod â'u wyneb i lawr mewn pentwr.

2: Mae un chwaraewr yn cymryd cerdyn o'r pentwr ac yn plotio pedwar pwynt ar y **grid Helfa Wyau Pwrs y Fôr-forwyn.** Mae'n cysylltu ei bwyntiau i ffurfio petryal. Mae'r un chwaraewr yn mesur perimetr y petryal ac yn ysgrifennu'r rhif hwnnw y tu mewn i'r siâp, ac wedyn mae wedi 'darganfod' y plisg ŵy.
Argymhellir bod pob chwaraewr yn gwirio gwaith ei wrthwynebydd i sicrhau bod y disgyblion yn deall cysyniadau 'perimetr' yn llawn, a rheolau'r gêm.

3: Mae'r ail chwaraewr yn ailadrodd yr un broses.

4: Y chwaraewyr i chwarae bob yn ail nes bod yr amser y cytunwyd arno wedi dod i ben / y ddau wedi cymryd nifer o gardiau y cytunwyd arno / pob cerdyn wedi'i gymryd.

5: Mae'r chwaraewyr yn adio eu cyfansymiau, ac yn ysgrifennu'r cyfanswm cyffredinol yn y gofod ar dop y ddalen.

**Gwahaniaethu**: I wneud y gêm yn **llai heriol**, defnyddiwch hanner y cardiau cyfesurynnau yn unig, neu, fel dewis arall, tynnwch y fôr-gath drwynfain o'r cardiau cyn dechrau. Er mwyn gwneud y gêm yn **fwy heriol**, gellid rhoi'r cyfesurynnau i'r disgyblion heb adnabod y plisg ŵy a dim ond ar ôl iddynt adnabod y plisg ŵy maent wedi'i blotio yn gywir maent yn ennill eu pwyntiau.

Mae'r pecyn adnoddau yma wedi cael ei gynhyrchu gan athrawon, ar gyfer athrawon ar ran Ymddiriedolaeth Natur Gogledd Cymru – diolch i gefnogaeth chwaraewyr Loteri Cod Post y Bobl

## Cam 1: Helfa Wyau Pwrs y Fôr-forwyn

Mesur **arwynebedd** petryalau

Amcanion: Cymerwch eich tro i blotio'r plisg wyau ar y grid. Byddwch yn sgorio pwyntiau yn ôl arwynebedd y plisg ŵy sydd wedi'i blotio'n gywir.

Adnoddau:
• Grid Helfa Wyau Pwrs y Fôr-forwyn – edrychwch dros y dudalen
• Cyfesurynnau plisg ŵy– edrychwch dros y dudalen
• Pensiliau / creonau / beiros lliw
• PDF o 'Pyrsiau'r Fôr-forwyn' - (lawrlwythwch yma)

Cyfarwyddiadau:
1: Bydd un grid yn cael ei ddefnyddio rhwng pâr o chwaraewyr. Dylai pob chwaraewr ddewis lliw ac ysgrifennu ei enw yn y lliw hwnnw ar dop y grid. Torrwch y **Cyfesurynnau Plisg Ŵy** a'u gosod â'u wyneb i lawr mewn pentwr.

2: Mae un chwaraewr yn cymryd cerdyn o'r pentwr ac yn plotio pedwar pwynt ar y **grid Helfa Wyau Pwrs y Fôr-forwyn.** Mae'n cysylltu ei bwyntiau i ffurfio petryal. Mae'r un chwaraewr yn mesur arwynebedd y petryal ac yn ysgrifennu'r rhif hwnnw y tu mewn i'r siâp, ac wedyn mae wedi 'darganfod' y plisg ŵy.
Argymhellir bod pob chwaraewr yn gwirio gwaith ei wrthwynebydd i sicrhau bod y disgyblion yn deall cysyniadau 'arwynebedd' yn llawn, a rheolau'r gêm.

3: Mae'r ail chwaraewr yn ailadrodd yr un broses.

4: Y chwaraewyr i chwarae bob yn ail nes bod yr amser y cytunwyd arno wedi dod i ben / y ddau wedi cymryd nifer o gardiau y cytunwyd arno / pob cerdyn wedi'i gymryd.

5: Mae'r chwaraewyr yn adio eu cyfansymiau, ac yn ysgrifennu'r cyfanswm cyffredinol yn y gofod ar dop y ddalen.


**Gwahaniaethu**: I wneud y gêm yn **llai heriol**, defnyddiwch hanner y cardiau cyfesurynnau yn unig, neu, fel dewis arall, tynnwch y fôr-gath drwynfain o'r cardiau cyn dechrau. Er mwyn gwneud y gêm yn **fwy heriol**, gellid rhoi'r cyfesurynnau i'r disgyblion heb adnabod y plisg ŵy a dim ond ar ôl iddynt adnabod y plisg ŵy maent wedi'i blotio yn gywir maent yn ennill eu pwyntiau.

Mae'r pecyn adnoddau yma wedi cael ei gynhyrchu gan athrawon, ar gyfer athrawon ar ran Ymddiriedolaeth Natur Gogledd Cymru – diolch i gefnogaeth chwaraewyr Loteri Cod Post y Bobl

Ymddiriedolaeth Natur Gogledd Cymru
North Wales Wildlife Trust
Supported by players of People's Postcode Lottery
Awarded funds from Postcode Planet Trust

**Helfa Wyau Pwrs y Fôr-forwyn**

| | | | |
|---|---|---|---|
| **Disgybl 1** | | **Disgybl 2** | |
| **Cyfanswm y sgôr** | | **Cyfanswm y sgôr** | |




Mae’r pecyn adnoddau yma wedi cael ei gynhyrchu gan athrawon, ar gyfer athrawon ar ran Ymddiriedolaeth Natur Gogledd Cymru – diolch i gefnogaeth chwaraewyr Loteri Cod Post y Bobl

## Cyfesurynnau Helfa Wyau Pwrs y Fôr-forwyn

| | | | |
|---|---|---|---|
| **Môr-gath gegddu** (0,0) (0,3) (5,0) (5,3) | **Môr-gath bigog** (0,6) (6,7) (0,9) (9,7) | **Môr-gath frech fach** (0,6) (0,8) (6,6) (6,8) | **Môr-gath donnog** (10,9) (10,13) 17,9) (17,12) |
| **Môr-gi** (11,1) (11,11) (16,1) (16,11) | **Môr-gath felen** (0,9) (0,20) (4,9) (4,20) | **Môr-gath lygadog** (4,8) (4,14) (6,8) (6,14) | **Môr-gi** (11,1) (11,12) (16,12) (16,20) |
| **Môr-gath drwynfain** (0,0) (0,18) (8,8) (8,18) | **Môr-gath lygadog** (1,12) (1,18) (3,12) (3,18) | **Môr-gath fannog** (4,17) (4,19) (9,17) (9,19) | **Môr-gath felen** (16,9) (16,20) (20,9) (20,20) |
| **Môr-gath frech fach** (18,1) (18,8) (20,1) (20,8) | **Môr-gath donnog** (0,3) (0,7) (7,3) (7,7) | **Môr-gath bigog** (7,7) (7,14) (9,7) (10,14) | **Môr-gath gegddu** (4,14) (4,17) (9,14) (9,17) |
| **Môr-gath fannog** (9,14) (11,14) (9,19) (11,19) | **Môr-gath drwynfain** (12,2) (12,20) (20,2) (20,20) | **Môr-gath llygaid bach** (12,0) (12,3) (20,0) (20,3) | **Môr-gath llygaid bach** (12,3) (12,6) (20,3) (20,6) |

Mae'r pecyn adnoddau yma wedi cael ei gynhyrchu gan athrawon, ar gyfer athrawon ar ran Ymddiriedolaeth Natur Gogledd Cymru – diolch i gefnogaeth chwaraewyr Loteri Cod Post y Bobl

Ymddiriedolaeth Natur Gogledd Cymru
North Wales Wildlife Trust
Supported by players of People's Postcode Lottery
Awarded funds from Postcode Planet Trust

## Cam 2: Ymarfer Rhifedd

1. Ewch ati i ganfod y perimetr ar gyfer pob un o'r plisg wyau.

2. Ewch ati i ganfod yr arwynebedd ar gyfer pob un o'r plisg wyau.

**Her**: dewiswch unrhyw dri phlisg ŵy a thynnu eu llun ar bapur sgwâr. Labelwch nhw gyda pherimetr ac arwynebedd y petryal. Gallech hyd yn oed ychwanegu ‘cyrn’ y plisg wyau a lliwio’r siapiau i gyd-fynd â’r lluniau yn y llun adnabod plisg wyau (edrychwch ar y PDF o ‘Pyrsiau’r Fôr-forwyn’ o *Gwyllt!*).

| | Plisg ŵy | Uchder ar gyfartaledd (cm) | Lled ar gyfartaledd (cm) | perimetr (cm) | arwynebedd (cm2) |
|---|---|---|---|---|---|
| siarcod | Môr-gath gegddu | 5 | 3 | | |
| | Môr-gath frech fach | 7 | 2 | | |
| | Môr-gi | 9 | 5 | | |
| morgathod | Môr-gath fannog | 5 | 2 | | |
| | Môr-gath lygadog | 6 | 2 | | |
| | Môr-gath bigog | 7 | 3 | | |
| | Môr-gath donnog | 7 | 4 | | |
| | Môr-gath llygaid bach | 8 | 3 | | |
| | Môr-gath felen | 11 | 4 | | |
| | Môr-gath drwynfain | 18 | 8 | | |

**M-ŵy Heriol - ydi'r datganiadau canlynol yn gywir neu'n anghywir?**

1. Mae pump o blisg wyau sydd â pherimetrau mwy na'u harwynebedd

2. Plisg ŵy y fôr-gath lygadog sydd â'r arwynebedd lleiaf

3. Gallai plisg wyau’r môr-gi, y fôr-gath felen a'r fôr-gath llygaid bach i gyd ffitio o fewn arwynebedd plisg ŵy’r fôr-gath drwynfain

---

Mae’r pecyn adnoddau yma wedi cael ei gynhyrchu gan athrawon, ar gyfer athrawon ar ran Ymddiriedolaeth Natur Gogledd Cymru – diolch i gefnogaeth chwaraewyr Loteri Cod Post y Bobl

Ymddiriedolaeth Natur Gogledd Cymru
North Wales Wildlife Trust

Supported by players of People's Postcode Lottery

Awarded funds from Postcode Planet Trust

**Taflen atebion i athrawon**

siarcod

morgathod

| Plisg ŵy | Uchder ar gyfartaledd (cm) | Lled ar gyfartaledd (cm) | perimetr (cm) | arwynebedd (cm2) |
|---|---|---|---|---|
| Môr-gath gegddu | 5 | 3 | 16 | 15 |
| Môr-gath frech fach | 7 | 2 | 18 | 14 |
| Môr-gi | 9 | 5 | 28 | 45 |
| Môr-gath fannog | 5 | 2 | 14 | 10 |
| Môr-gath lygadog | 6 | 2 | 16 | 12 |
| Môr-gath bigog | 7 | 3 | 20 | 21 |
| Môr-gath donnog | 7 | 4 | 22 | 28 |
| Môr-gath llygaid bach | 8 | 3 | 22 | 24 |
| Môr-gath felen | 11 | 4 | 30 | 44 |
| Môr-gath drwynfain | 18 | 8 | 52 | 144 |

**M-ŵy Heriol - ydi'r datganiadau canlynol yn gywir neu'n anghywir?**

1. Mae pump o blisg wyau sydd â pherimetrau mwy na'u harwynebedd

**Anghywir**, dim ond pedwar o blisg wyau sydd â pherimetrau mwy na'u harwynebedd: y fôr-gath gegddu, y fôr-gath frech fach, y fôr-gath fannog a'r fôr-gath lygadog.

2. Plisg ŵy y fôr-gath lygadog sydd â'r arwynebedd lleiaf

**Anghywir**, mae plisg ŵy y fôr-gath lygadog yn 12cm$^2$ ond mae plisg ŵy y fôr-gath fannog yn llai fyth, gydag arwynebedd o ddim ond 10cm$^2$

3. Gallai plisg wyau'r môr-gi, y fôr-gath felen a'r fôr-gath llygaid bach i gyd ffitio o fewn arwynebedd plisg ŵy'r fôr-gath drwynfain

**Gwir**, mae arwynebedd plisg wyau'r môr-gi (45cm$^2$), y fôr-gath felen (44cm$^2$) a'r fôr-gath llygaid bach (24cm$^2$) yn 113cm$^2$, felly byddai gan y fôr-gath drwynfain 31cm$^2$ arall ar ôl o hyd!

Mae'r pecyn adnoddau yma wedi cael ei gynhyrchu gan athrawon, ar gyfer athrawon ar ran Ymddiriedolaeth Natur Gogledd Cymru – diolch i gefnogaeth chwaraewyr Loteri Cod Post y Bobl

Ymddiriedolaeth Natur Gogledd Cymru
North Wales Wildlife Trust

Supported by players of People's Postcode Lottery

Awarded funds from Postcode Planet Trust

## Cam 3: Llythrennedd – Deall Ysgyfarnogod yr Entrychion

Adnoddau:

- PDF o 'Ysgyfarnogod yr Entrychion' (lawrlwythwch yma)

1 Pam mae'n anodd gweld ysgyfarnogod y mynydd yn ystod y gaeaf? (1)

______________________________________________

2 Ble gallwch chi ddod o hyd i ysgyfarnogod y mynydd yn y DU? (1)

_______________________________________

3 Rhowch gylch o amgylch pa un o'r anifeiliaid canlynol sy'n rhywogaeth frodorol i'r DU? (1)
a. cwningen b. ysgyfarnog frown c. ysgyfarnog y mynydd

4 Chwiliwch am dair ffordd o adnabod ysgyfarnog y mynydd. (3)

a - __________________________________________

b - __________________________________________

c - __________________________________________

5 Pryd mae ysgyfarnog y mynydd yn hela? (1)

______________________________________________________________

6 Sut mae ymddygiad ysgyfarnog y mynydd yn wahanol i ymddygiad cwningen? Chwiliwch am ddwy enghraifft. (2)

a - __________________________________________

b - __________________________________________

7 Enwch bedwar ysglyfaethwr sy'n hela ysgyfarnogod y mynydd. (4)

a - _________________________ b - __________________________________________

c - _________________________ d - __________________________________________

8 Sut bydd newid hinsawdd yn effeithio ar oroesiad ysgyfarnogod y mynydd? (2)

______________________________________________________________

______________________________________________________________

**Taflen atebion i athrawon**

Mae'r pecyn adnoddau yma wedi cael ei gynhyrchu gan athrawon, ar gyfer athrawon ar ran Ymddiriedolaeth Natur Gogledd Cymru – diolch i gefnogaeth chwaraewyr Loteri Cod Post y Bobl

1 Pam mae'n anodd gweld ysgyfarnogod y mynydd yn ystod y gaeaf?

*Maen nhw'n troi'n wyn - cuddliw gaeaf perffaith.*

2 Ble gallwch chi ddod o hyd i ysgyfarnogod y mynydd yn y DU?

*Yr Alban*

3 Pa un o'r canlynol sy'n rhywogaeth frodorol?

*C – ysgyfarnog y mynydd*

4 Chwiliwch am dair ffordd o adnabod ysgyfarnog y mynydd.

*Mae ysgyfarnog y mynydd yn llai nag ysgyfarnog frown, ond yn fwy na chwningen.*
*Mae eu clustiau yn hirach na chlustiau cwningod ond yn fyrrach na chlustiau ysgyfarnogod brown.*
*Mae blaenau du ar eu clustiau.*
*Mae eu llygaid yn frown – mae gan yr ysgyfarnog frown lygaid oren.*
*Mae eu ffwr yn llwydfrown golau yn yr haf ac yn wyn yn y gaeaf. Mae eu cynffon bob amser yn wyn.*

5 Pryd mae ysgyfarnog y mynydd yn hela?

*Mae ysgyfarnogod y mynydd yn greaduriaid nosol.*

6 Sut mae ymddygiad ysgyfarnog y mynydd yn wahanol i ymddygiad cwningen? Chwiliwch am ddwy enghraifft.

*Maen nhw'n byw mewn 'ffurfiau' yn hytrach na thyllau.*
*Maen nhw'n swil ac yn byw ar eu pen eu hunain yn aml.*

7 Enwch bedwar ysglyfaethwr sy'n hela ysgyfarnogod y mynydd.

*llwynogod carlymod bwncathod eryrod aur*

8 Sut bydd newid hinsawdd yn effeithio ar oroesiad ysgyfarnogod y mynydd?

*Mae ysgyfarnogod y mynydd yn troi'n wyn yn y gaeaf i ymdoddi i'w hamgylchedd ac i osgoi ysglyfaethwyr. Bydd eira hwyrach, neu ddim eira o gwbl, yn golygu y bydd yn haws i'r ysglyfaethwyr weld yr ysgyfarnogod gwyn llachar.*

Mae'r pecyn adnoddau yma wedi cael ei gynhyrchu gan athrawon, ar gyfer athrawon ar ran Ymddiriedolaeth Natur Gogledd Cymru – diolch i gefnogaeth chwaraewyr Loteri Cod Post y Bobl

# Cam 4: Cymesuredd mewn Celf

**Cymesur ei natur – saith cam i fraslunio llwyddiannus!**

Adnoddau:

- Detholiad o ffotograffau (gweddol) gymesur o fywyd gwyllt – mae rhai i'w gweld dros y dudalen hefyd; efallai y byddwch chi eisiau torri eich rhai eich hun allan o hen rifynnau o *Gogledd Cymru Wyllt* neu *Gwyllt!*




**Cam 1:** argraffwch y ffotograffau sydd wedi'u hatodi neu dorri eich ffotograffau eich hun o hen rifynnau o *Gogledd Cymru Wyllt* neu *Gwyllt!*




**Cam 2:** plygwch y ffotograff yn ofalus i lawr llinell ganol y cymesuredd



**Cam 3:** gallwch ddewis ychwanegu grid dros y llun i helpu gyda nodweddion neu batrymau (*cyngor*: ewch ati i ymestyn y grid dros yr un pellter ar y papur gwag)
(*cyngor* 2: defnyddiwch bensil fel bod posib ei ddileu yn nes ymlaen)




**Cam 4:** defnyddiwch blu-tack neu dâp masgio i ddal y llun i lawr



**Cam 5:** tynnwch lun hanner arall y ffotograff
(*cyngor*: peidiwch â phoeni os nad yw'n edrych yn union fel yr hanner arall oherwydd pur anaml mae byd natur yn cynnig cymesuredd 100%)



**Cam 6:** pan ydych chi'n hapus gyda'ch llun, gludwch hanner gwreiddiol y llun nesaf at eich llun chi



**Cam 7:** defnyddiwch bensil, creonau neu baent i addurno eich hanner chi o'r llun
(*cyngor*: gallwch ymestyn y ddau lun y tu hwnt i'w ffiniau nawr, gan uno'r ddau hanner i fod yn rhan o rywbeth cwbl newydd)

---

Mae'r pecyn adnoddau yma wedi cael ei gynhyrchu gan athrawon, ar gyfer athrawon ar ran Ymddiriedolaeth Natur Gogledd Cymru – diolch i gefnogaeth chwaraewyr Loteri Cod Post y Bobl

Ymddiriedolaeth Natur Gogledd Cymru
North Wales Wildlife Trust

Supported by players of PEOPLE'S POSTCODE LOTTERY

Awarded funds from POSTCODE PLANET TRUST



Heulgi © Alexander Mustard/2020VISION

Mae'r pecyn adnoddau yma wedi cael ei gynhyrchu gan athrawon, ar gyfer athrawon ar ran Ymddiriedolaeth Natur Gogledd Cymru – diolch i gefnogaeth chwaraewyr Loteri Cod Post y Bobl

Ymddiriedolaeth Natur Gogledd Cymru
North Wales Wildlife Trust
Supported by players of PEOPLE'S POSTCODE LOTTERY
Awarded funds from POSTCODE PLANET TRUST



Tegeirian y wenynen © Dawn Monrose

Mae'r pecyn adnoddau yma wedi cael ei gynhyrchu gan athrawon, ar gyfer athrawon ar ran Ymddiriedolaeth Natur Gogledd Cymru – diolch i gefnogaeth chwaraewyr Loteri Cod Post y Bobl

Ymddiriedolaeth Natur Gogledd Cymru
North Wales Wildlife Trust
Supported by players of PEOPLE'S POSTCODE LOTTERY
Awarded funds from POSTCODE PLANET TRUST



Tylluan wen © Danny Green/2020VISION

Mae'r pecyn adnoddau yma wedi cael ei gynhyrchu gan athrawon, ar gyfer athrawon ar ran Ymddiriedolaeth Natur Gogledd Cymru – diolch i gefnogaeth chwaraewyr Loteri Cod Post y Bobl

Ymddiriedolaeth Natur Gogledd Cymru
North Wales Wildlife Trust

Supported by players of PEOPLE'S POSTCODE LOTTERY
Awarded funds from POSTCODE PLANET TRUST



Ysgyfarnog © Margaret Holland

Mae’r pecyn adnoddau yma wedi cael ei gynhyrchu gan athrawon, ar gyfer athrawon ar ran Ymddiriedolaeth Natur Gogledd Cymru – diolch i gefnogaeth chwaraewyr Loteri Cod Post y Bobl

Ymddiriedolaeth Natur Gogledd Cymru
North Wales Wildlife Trust

Supported by players of People's Postcode Lottery

Awarded funds from Postcode Planet Trust



Gwiwer goch © Mark Hamblin/2020VISION

Mae'r pecyn adnoddau yma wedi cael ei gynhyrchu gan athrawon, ar gyfer athrawon ar ran Ymddiriedolaeth Natur Gogledd Cymru – diolch i gefnogaeth chwaraewyr Loteri Cod Post y Bobl

Ymddiriedolaeth Natur Gogledd Cymru
North Wales Wildlife Trust

Supported by players of People's Postcode Lottery

Awarded funds from Postcode Planet Trust



Robin goch © Mark Hamblin/2020VISION

Mae'r pecyn adnoddau yma wedi cael ei gynhyrchu gan athrawon, ar gyfer athrawon ar ran Ymddiriedolaeth Natur Gogledd Cymru – diolch i gefnogaeth chwaraewyr Loteri Cod Post y Bobl



Twmpot © Paul Naylor

Mae’r pecyn adnoddau yma wedi cael ei gynhyrchu gan athrawon, ar gyfer athrawon ar ran Ymddiriedolaeth Natur Gogledd Cymru – diolch i gefnogaeth chwaraewyr Loteri Cod Post y Bobl

Ymddiriedolaeth Natur Gogledd Cymru
North Wales Wildlife Trust

Supported by players of People's Postcode Lottery

Awarded funds from Postcode Planet Trust



Bele © Terry Whittaker/2020VISION

Mae'r pecyn adnoddau yma wedi cael ei gynhyrchu gan athrawon, ar gyfer athrawon ar ran Ymddiriedolaeth Natur Gogledd Cymru – diolch i gefnogaeth chwaraewyr Loteri Cod Post y Bobl



Gellesgen © Vaughn Matthews

Mae'r pecyn adnoddau yma wedi cael ei gynhyrchu gan athrawon, ar gyfer athrawon ar ran Ymddiriedolaeth Natur Gogledd Cymru – diolch i gefnogaeth chwaraewyr Loteri Cod Post y Bobl

Ymddiriedolaeth Natur Gogledd Cymru
North Wales Wildlife Trust

Supported by players of PEOPLE'S POSTCODE LOTTERY

Awarded funds from POSTCODE PLANET TRUST